# WYT TI'N UN O'R RHAIN?



## EXAMEAR

### HELPU MYFYRWYR I LWYDDO!

Mae ein clustffonau radio yn wych!

Dim mwy o ddysgu rhesi o ffeithiau a ffigyrau!

Dim mwy o boeni y cei dy ddal yn copïo o ddarn o bapur!

Y rhataf? Dim ond £86 – Silver Snip! Wedi ei gynllunio'n arbennig ar gyfer yr ysgol uwchradd.

**Wyt ti am fod yn un o'r ymgeiswyr arholiad yna sy'n ymddwyn fel James Bond? Un o'r rhai sy'n gwisgo clustffonau bach cuddiedig i gopïo mewn arholiad?**

Maen nhw mor fach fel na fedr neb eu gweld ac mae'r disgybl yn gallu sibrwd i feicroffon hynod o sensitif i ofyn i ffrind - sy y tu allan i ystafell yr arholiad - am ateb. Dewis arall fyddai gwrando ar nodiadau ar dy mp3. Hawdd…

Ydy, mae copïo wedi bod erioed. Mae'n siwr bod dy famgu neu dy dadcu yn euog ohono. Edrych dros ysgwydd neu gopïo o ddarn o bapur neu rywbeth wedi ei ysgrifennu ar fraich fydden nhw. Erbyn heddiw mae'n rhywbeth llawer mwy soffistigedig ac mae ar gynnydd.


Ond…aros am eiliad. Beth yw oblygiadau hyn, o bosib?

Wel, ym mis Mehefin 2009 y cyfanswm o gymwysterau a roddwyd ym Mhrydain oedd:

Lefel Uwch: 840,000
Uwch Gyfrannol: 1 miliwn
TGAU: 16 miliwn
Cosbwyd 4,415 am gamymddwyn sef 0.03% o'r holl ymgeiswyr

**Y MATH O GAMYMDDWYN MEWN ARHOLIAD**

Pa fath o ymddygiad sy'n cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n haeddu cosb? a faint sy'n cael eu cosbi?




Efallai nad ydy'r cosbau yn ddigon llym. Weithiau, dim ond rhybudd gaiff ymgeisydd os daw â ffôn symudol i ystafell arholiad ond nid yw'n ei roi ar ei ddesg. Os yw'n defnyddio'r ffôn efallai y caiff y rhan honno o'r arholiad ei chanslo neu efallai yr holl bapur - neu yr holl bwnc, hyd yn oed.

Yr hyn sy'n hollol annheg ydy'r gwahanol gosbau a roddir mewn gwahanol ysgolion a chan wahanol awdurdodau. A dydy'r rhai sy'n rheoli'r arholiadau a'r arolygwyr ddim yn berffaith chwaith!

Yn 2009 cafodd 88 aelod o staff (58 ohonynt wedi helpu ymgeiswyr) eu cosbi. Cosbwyd 70 o ganolfannau am bethau fel agor papurau ymlaen llaw, rhoi ffafriaeth i ymgeisydd a rhoi mwy o amser nag y dylid.

Un peth sy'n sicr, mae'n rhaid cael tegwch i bawb. Os bydd pethau'n gwaethygu, fydd dim dewis ond cael camerâu CCTV mewn ystafelloedd arholiad neu sganio pob ymgeisydd fel sy'n digwydd mewn meysydd awyr. A dyna tithau'n James Bond eto!